Ail-ysgogi cyflenwr a newidiadau i gyflenwr



Dyddiad: Tachwedd 2024

Adran: Cyllid

Cynnwys

Ail-ysgogi cyflenwr a gwneud newidiadau i gyflenwr	2
Sut i ail-ysgogi cyflenwr	3
Chwilio am y cyflenwr	4
Tab 1: Cyflenwyr	7
Tab 2: Gwybodaeth ar gyfer Cysylltu	9
Tab 3: Anfoneb	9
Tab 4: Taliad	
Tab 5: Cysylltiadau	
Tab 6: Gwybodaeth Ychwanegol	
Uwchlwytho dogfennau	16
Cadw	
Beth fydd yn digwydd nesaf	
Ymdrin â thasg a wrthodwyd	
Sut i wneud newidiadau i gyflenwr	23
Uwchlwytho tystiolaeth	23
Beth fydd yn digwydd nesaf	24
Ymdrin â thasg a wrthodwyd	24

Ail-ysgogi cyflenwr a newidiadau i gyflenwr

Mae'r ddogfen hon yn ganllaw ar gyfer ail-ysgogi cyflenwyr sydd wedi cau ac i wneud newidiadau i gyflenwyr yn system ariannol y brifysgol - Unit 4 Business World (a elwir hefyd yn ABW – <u>https://abw.aber.ac.uk/</u>).

Os ydych am ail-ysgogi a / neu newid manylion cyflenwr, mae hyn yn golygu bod y cyflenwr eisoes yn y gronfa ddata cyflenwyr, a'ch bod chi'n ceisio diwygio'r cofnod yn unig.

Os ydych chi am sefydlu cofnod cyflenwr newydd, darllenwch y 'Canllawiau Sefydlu Cyflenwr Newydd' ar y wefan hon. <u>Gwefan y Swyddfa Gyllid</u>.

Sut i ail-ysgogi cyflenwr

Os yw statws y cyflenwr yr ydych yn gofyn am brynu nwyddau ganddo yn dangos ei fod 'Ar gau' yn ABW, gallwch ofyn i'r cyflenwr gael ei ail-ysgogi. Sicrhewch eich bod yn darllen y nodiadau a ysgrifennwyd yn y tab cyflenwyr 'Suppliers' yn y rhyngwyneb 'Supplier', oherwydd gall rhai o'r cyflenwyr fod ar gau o ganlyniad i gofnodion dyblyg yn y system. Os oes cofnod dyblyg gan y cyflenwr rydych chi am ei ddefnyddio, byddai hyn yn cael ei grybwyll yn y nodiadau.

ipplier Cont	tact information	Invoice	Payment	Relations	Additional Information	Supplier Trans	
Supplier Lookup Supplier ID		<u>P</u> .	•• Su	oplier name*			
Classificatio Supplier group	n -		Su	pplier identi npany registra	fication tion number	* Notes	
Trade Creditor 1 Country *	rs	*					
United Kingdo	m						
5-F - F							
Language*							
Language* English UK						-	
Language * English UK EN							
Language * English UK EN Head office							

Y peth cyntaf wrth ail-ysgogi cyflenwr yn y gronfa ddata yw cael y 'Ffurflen Data Cyflenwr Newydd'. Bydd y ffurflen yn cael ei llenwi gan y cyflenwr y byddwch am brynu nwyddau ganddo. Mae angen y ffurflen hon ar gyfer ail-ysgogi oherwydd bod gofyn i ni sicrhau bod yr wybodaeth yn ABW yn gywir.

Os yw'r cyflenwr ar gau, gall fod sawl rheswm am hyn:

- Nid oes anfonebau ar eu cyfrif wedi eu dyddio yn ystod y 18 mis diwethaf.
- Nid oes ceisiadau gweithredol yn y llif gwaith yn aros am gymeradwyaeth.
- Nid oes AB wedi eu dyddio yn ystod y 18 mis diwethaf; a
- Nid yw'r cyfrif cyflenwr wedi bod trwy'r llif gwaith yn ystod y 18 mis diwethaf.

Gallai gwybodaeth y cyflenwr fod wedi newid yn ystod y cyfnod na ddefnyddiwyd ef neu pan oedd ar gau, felly mae'r ffurflen hon yn hanfodol fel y gallwn sicrhau ein bod yn dangos unrhyw newidiadau i wybodaeth y cyflenwr.

Ar ôl i chi gael y ffurflen gan y cyflenwr, bydd angen i chi fynd trwy holl dabiau eich cyflenwr dewisol yn y rhyngwyneb 'Suppliers', a bydd angen i chi wirio'r holl wybodaeth a'i newid lle bo angen.

Chwilio am y cyflenwr

Rhaid ail-ysgogi cyflenwr os ydych chi am brynu nwyddau gan gyflenwr sydd eisoes yn y gronfa ddata, ond mae ei statws yn dangos ei fod 'Ar gau'. I weld beth yw statws y cyflenwr, rhaid i chi chwilio am y cyflenwr.

Ar ôl mewngofnodi i ABW bydd angen i chi ddewis y tab 'Procurement' o'r ddewislen ar y chwith. Ar ôl dewis hwn fe welwch y dewisiadau canlynol.

2000.00	Requisitions	Purchase orders	Suppli	er information	
Procurement	Requisitions - standard	Goods received	💝 😵 Sup	pliers	
<u>_</u>			Eng	uiries	*

I edrych am gyflenwr newydd rhaid i chi ddewis 'Suppliers' a fydd yn dangos y sgrin ganlynol i chi:

opplier Contact information Invoice Payment Relations Additional Information Supplier Trans	
Supplier	
Lookup	
Supplier ID Supplier name*	
Classification Supplier identification * Notes	
Supplier group * Company registration number	
Trade Creditors	
Country*	
United Kingdom	
English UK	
EN	
Head office	
•••	
Sundry	
Survey	

Mae llawer o gyflenwyr wedi'u gosod ar Business World ar hyn o bryd, ac mae gan bob un lythyren "T" fel cyfeirnod cyflenwr ac yna 5 digid, e.e. T10714 yw Cambrian Tyres. Os nad ydych chi'n gwybod beth yw Cyfeirnod y cyflenwr, gallwch ddechrau teipio yn y blwch maes i gyrraedd rhestr sy'n cynnwys yr enw hwnnw (fel y dangosir yn y llun).

olier C	Contact information	Invoice	Payment	Relations	Additional Information	Supplier Trans
Supplier						
ookup						
cambrian						
T10695	CAMBRIAN CABS	LTD				
T10713	THE CAMBRIAN H	IOTEL				
T10714	CAMBRIAN TYRE	S(Aberystw	yth) Ltd			
T10724	CAMBRIAN FENC	ING LTD				
T10726	CAMBRIAN FOUN	IDRY NEWT	OWN LTD			
T10728	CAMBRIAN SAFE	TY SERVICE	S			> Notor
T10730	CAMBRIAN POW	ER TOOLS A	berystwyth			< Notes
T10732	CAMBRIAN PRINT	TERS				
T10736	CAMBRIAN TRAD	ER				
T10738	CAMBRIAN POW	ER TOOLS T	regaron			
T10739	CAMBRIAN TRAIN	NING COMP	ANY			
T14560	CAMBRIAN ARCH	AEOLOGIC	AL ASSOCIA	TION - DIRECT	DEBIT	
T15159	CWMNI MYNYDDO	DEDD CAM	BRIAN / CAN	BRIAN MOUN	NTAIN	
T15789	CAMBRIAN TYRE	S (CYCLES)				
T15920	CAMBRIAN DRIVE	ER TRAININ	G			
T18364	Cambrian Landsc	aping Servic	es			
T18545	CAMBRIAN TRAIL	ERS AND N	ARINE CENT	RE		

Fel arall, gallwch glicio ar yr eicon gyda'r 3 dot ar ddiwedd y maes i ddangos ffenestr chwilio am werth.

the last																	
ilue look	cup																
Search cr	iteria																
¥ Adva	anced																
¥ Adva	anced																
✓ Adva Search	anced																
➢ Adva Search pplier ID	Name	Address	Post Code	Town	Country	County	Telephone	Telefax	Telex	Mobile	Pager	Home	Assistant	То	Address typ	Status	

Trwy ddefnyddio'r maes 'Search Criteria', byddwch yn chwilio'r cyfrif cyflenwyr cyfan am y manylion rydych wedi'u nodi. Gan ddefnyddio'r enghraifft flaenorol sef Cambrian bydd hyn yn chwilio enw, cyfeiriad ac unrhyw faes arall sy'n cynnwys y gair Cambrian ac yn eu harddangos oll yn y tabl.

I chwilio'n fwy manwl, gallwch bwyso'r pennyn 'Advanced' (a amlygir yn y sgrinlun blaenorol) i ddangos rhestr lawn o feysydd y gallwch eu chwilio:

arch crite	eria									
∧ Advan	ced									
Supplier ID	0					Name				
Contact						То				=
Address						Town				=
County						Post Code				۲
Country						Telephone				۲
Bank acco	unt					Address type	(T)			=
Status			N					L		
earch										
		12	-	1		12	-	-	 	

Ar ôl i chi nodi'ch meini prawf yn y meysydd cliciwch ar y botwm 'Chwilio' i arddangos y canlyniadau yn y tabl. Noder, pe baech yn rhoi Cambrian yn unig yn y maes 'Name' bydd hyn ond yn dangos y cyflenwyr gyda'r union enw hwnnw. Er mwyn chwilio am gyflenwr sydd â'r enw Cambrian ynddo, rhaid i chi ddefnyddio'r nodwedd nodchwilio h.y. *Cambrian*. I ddewis y cyflenwr sydd ei angen arnoch, mae angen clicio unwaith ar y cyflenwr o'r tabl.

I chwilio o fewn yr holl gyflenwyr (Active, Closed neu Parked) tynnwch yr 'N' o'r maes 'Status'.

Trwy'r chwiliad uwch gallwch hefyd wirio'r cyflenwr trwy rif eu cyfrif banc. Mae'n bosibl bod cyflenwr yn y gronfa ddata yn defnyddio'r un manylion banc, ond bod ganddo enw gwahanol oherwydd ei fod wedi'i newid. I wirio hyn, nodwch rif y cyfrif banc yn y maes ar gyfer 'Bank account' (a chofiwch dynnu'r 'N' o'r statws).

Ar ôl i chi ddod o hyd i'r cyflenwr gofynnol, gallwch weld y statws yn y tab 'Talu'.

unnlieve			
ppliers			
upplier Contact information Inv	roice Payment Relations Additional Inform	ation Supplier Trans	
Supplier			
Lookup			
T10714			
CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd			
Payment details	Bank details		
Pay method*	Bank account*	Status*	
BACS 👻	19596060	Closed	
IP	Build Soc. Roll*	C	
	0	Expiry date	
	Account Holder*	31/12/2099	
	IBAN		
	Swift		

Tab 1: Cyflenwyr

Yn y tab 'Supplier' yn y rhyngwyneb 'Suppliers', byddwch yn gallu newid enw'r cyflenwr, os yw hynny wedi newid. I newid yr enw cliciwch ar y maes 'Supplier Name', dilëwch yr hen enw a nodwch yr enw newydd.

Wrth newid yr enw gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau ar fformatio enwau isod:

- Defnyddiwch Lythrennau Teitl
- Peidiwch ag ychwanegu atalnodau llawn na chysylltnodau yn enwau'r cyflenwyr.
- Os unigolyn yw'r cyflenwr, rhaid i chi ei osod ar ffurf enw cyntaf llawn a chyfenw, peidiwch â defnyddio llythrennau cyntaf na theitlau (Mr/Mrs, Dr ac ati).

oplier	s						
pplier	Contact information	Invoice	Payment	Relations	Additional Information	Supplier Trans	
Suppli	er						
Lookup			_				
Supplier	r ID*		Su	pplier name*			
T0000	1		M	New Supplie	r Name Ltd		
Supplier Trade C	r group * Creditors	-	, Coi	mpany registra 349874	tion number		
1 Country							
United	Kingdom						
GB							
Languag	je*						
English	UK						
EN							
Head of	fice	,	_				
My New	v Supplier Name Ltd						
[NEW]							
Sundry							

Mae'n bosibl bod y cyflenwr wedi newid ei enw masnachu, ond bod yr enw a ddefnyddir ar gyfer anfonebau ac ati wedi aros. Gellir dangos hyn yn yr enw gan roi 't/a' ('trading as') y tu ôl i enw'r cyflenwr a'r enw masnachu ar ôl hynny.

Enghraifft:

'Fy Enw Cyflenwr Newydd Cyf t/a Enw Masnachu'

Tab 2: Gwybodaeth ar gyfer Cysylltu

Y newid mwyaf cyffredin wrth ail-ysgogi cyflenwr yw newid y manylion cyswllt.

Fel y dangosir yn ein henghraifft o Deiars Cambrian, gallwch newid y cyfeiriad trwy glicio ar res y cyfeiriad rydych chi am ei newid a theipio yn y maes rydych chi am ei newid. Gallwch newid y maes sydd wedi newid yn y cyfeiriad yn unig a gadael y gweddill yr un peth (e.e. mewn achosion lle newidir y cyfeiriad e-bost yn unig, a bod y gweddill wedi aros yr un peth).

opliers									
oplier Contact information	Invoice	Payment	Relations	Additional Information	Supplier Trans				
Supplier									
.ookup T10714 CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd									
Address									
Address type				 Street address 		Town	County	Post Code	Contact
and the second se	ALC: NOTION	CONTRACTOR OF	No. N	Talybont		ABERYSTWYTH	CEREDIGION	SY24	
General	1.0	ALCOLULATION OF	and the state of the	and					
General Payment Add Delete	4-242 23 ¹⁴ -242	1918-191	-	Talybont		ABERYSTWYTH	CEREDIGION	SY24	
Add Delete Address details Address	4+ ΣΥΣ	1912.0	Phone nu	Talybont	E-mail and web	ABERYSTWYTH	CEREDIGION Contact pe	SY24	
Add Delete Address details Address	τη ₁ . Α. τ. γ Α+- τ.γγ	791.0	Phone nut	Talybont	E-mail and web	ABERYSTWYTH	CEREDIGION Contact pe	sy24	
General Payment Add Delete Address Address Address Address Address	τη _φ		Phone nu Telephone* 01970	Talybont	E-mail and web	ABERYSTWYTH	CEREDIGION Contact pe Name	sy24	
General Payment Add Delete Address details Address Address Address Address type General Street address*	τη ₂		Phone nut Telephone * 01970 L Mobile	mbers	E-mail and web E-mail * cambriantyresabe URL	ABERYSTWYTH site rystwyth@hotmail.co.uk	CEREDIGION Contact pe	sy24	•
General Payment Payment Add Delete Address details Address Address Address Address Address Street address* Testing change	19,247.9 1-17		Phone nu Telephone * 01970 L Mobile	mbers	E-mail and web E-mail * cambriantyresabe URL	ABERYSTWYTH site	CEREDIGION Contact pe Name Position	sy24	
General Payment Add Delete Address details Address Address Address Address Address Street address* Testing change Country*	23.900 (1997) 4-12 (1997)		Phone nu Telephone * 01970 (Mobile	mbers	E-mail and web E-mail * cambriantyresabe URL	ABERYSTWYTH site rrystwyth@hotmail.co.uk	CEREDIGION Contact pe Name Position	sy24	
Ceneral Ceneral Ceneral Ceneral Ceneral Ceneral Cauntry* United Kingdom Ceneral Cauntry* Ceneral Cene	2 (1999) 4 - 7 (1997)		Phone nu Telephone * 01970 L Mobile	mbers	E-mail and web E-mail* cambriantyresabe URL	ABERYSTWYTH	CEREDIGION Contact pe Name Position	sy24	
General Payment Add Delete Address details Address Address Address Address Address Address Country* United Kingdom Post Code* Excda - co	13 (godini 147) 4 - 7 ya -		Phone nu Telephone * 01970 (Mobile	mbers	E-mail and web E-mail* cambriantyresabe URL	ABERYSTWYTH	CEREDIGION Contact pe Name Position	sy24	

Tab 3: Anfoneb

Nid oes angen newid unrhyw beth yn y tab hwn.

Tab 4: Taliad

Er mwyn ail-ysgogi'r cyflenwr, mae angen i ni newid y statws yn y tab talu 'Payment' trwy glicio ar y saeth yn y maes 'Status' a'i newid o fod ar gau i fod yn weithredol, o 'Closed' i 'Active'. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn diweddaru manylion y banc os ydynt wedi newid. Gellir gwneud hyn trwy glicio ar y maes yr ydym am ei newid, dileu'r hen werth a nodi gwerth newydd.

olier Contact inform	mation Invoice	Payment Relations	Additional Information	Supplier Trans		
Supplier						
Lookup						
T10714						
CAMERIAN ITRES(Aberysti	wyth) Lto					
Payment details		Bank details				
		www.comeda		and the second		
Pay method *		Bank account" 12345678		Ciosed		
p.		Duild See Della		Active	N	
		0		Closed	c	
		Account Holdas	8	Parked	Р	
		Cambrian Tyres	6			
		IRAN		1.		
		Swift				
		Sort Code				
		123456				

Wrth newid manylion y banc gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau isod:

Cyfrif banc

Rhowch rif y cyfrif banc. Gwnewch yn siŵr ei fod yn rhif dilys yn y DU gydag 8 digid (heb sero ychwanegol o'i flaen). Os oes gan y cyflenwr gyfrif banc tramor, rhowch rif y cyfrif banc yn y fformat a roddwyd i chi gan y cyflenwr, tynnwch unrhyw fylchau a chysylltnodau. **Peidiwch** â rhoi'r IBAN yn y maes ar gyfer rhif cyfrif banc.

Deiliad y Cyfrif

Rhowch yr enw y mae'r cyfrif banc yn cael ei gadw ynddo - fel arfer mae'r enw yr un fath ag enw'r cyflenwr ac mae'n gyffredin ei fod yn cyfateb. Gwnewch yn siŵr **NAD enw'r banc ydyw.**

Mewn rhai achosion, gallai hyn fod yn wahanol i enw'r cyflenwr, cyn belled ag mai dyma'r wybodaeth a ddarperir gan y cyflenwr, gallwch ei ddefnyddio.

SWIFT

Ar gyfer cyflenwyr o dramor, rhowch y cod SWIFT/BIC heb fylchau.

Cod Didoli

Rhowch y cod didoli 6 digid heb gysylltnodau na bylchau ar gyfer cyfrifon banc y DU, neu'r cod llwybro ar gyfer Cyfrifon Banc UDA.

Tab 5: Cysylltiadau

Yn y tab hwn, efallai y bydd angen i chi newid y 'Grŵp Cynnyrch Caffael' os yw'r maes yn dweud 'Non Specified'.

Supplier	s								
Supplier	Contact information	Invoice	Payment	Relations	Additional Information	Supplier Trans			
Suppli	er								
Lookup			•••						
	R	elation			Rela	ation value		Description	
Sup	plier group (SUPPGRP)								
Tax	Area (TAXAREA)								
Proc	curement Product Group (PROD GRP	PROC)						
Add	Delete								

Mae'r maes hwn yn dweud wrthym pa grŵp / math o eitemau fydd yn cael eu prynu gan y cyflenwr. Mae hwn yn faes gorfodol gan fod ei angen at ddibenion archwilio.

Noder, os byddwch yn dewis 'Non-specified' neu 'Other' efallai y caiff eich cais ei wrthod. Rydym yn eich annog i baru'r grŵp â'r cynnyrch sy'n cael ei brynu.

Search criter	ia					
[
× Advanc	ed					
Search						
Attribute value	Attribute	Description	Period from	Period to	Status	
						Filter
GRI	PROD GRP PR	Anricultural	0	209999	N	
RT	PROD GRP PR	Arts & Crafts	0	209999	N	
V	PROD GRP PR	Audio Visual	0	209999	N	
AP	PROD GRP PR	Capital	0	209999	C	
AT	PROD GRP PR	Catering	0	209999	N	
LEAN	PROD GRP PR	Cleaning	0	209999	N	
CLO	PROD GRP PR	Clothing	0	209999	N	
ON	PROD GRP PR	Consultancy	0	209999	N	
CONAGRI	PROD GRP PR	Consultancy (Agricultural)	0	209999	N	
CONCOUN	PROD GRP PR	Consultancy (Counselling & Health Related)	0	209999	N	
CONESTA	PROD GRP PR	Consultancy (Estates Related)	0	209999	N	
ONFINA	PROD GRP PR	Consultancy (Finance or Management Related)	0	209999	N	
ONHR	PROD GRP PR	Consultancy (HR Related)	0	209999	N	
ONMARK	PROD GRP PR	Consultancy (Marketing, Comms & Student Recruit	0	209999	N	
CONMISC	PROD GRP PR	Consultancy (Miscellaneous)	0	209999	N	
CONSCIE	PROD GRP PR	Consultancy (Science, Research & Education)	0	209999	N	
CONTECH	PROD GRP PR	Consultancy (Technology or Library Realated)	0	209999	N	
COU	PROD GRP PR	Council	0	209999	N	
DU	PROD GRP PR	Education	0	209999	N	
STATES	PROD GRP PR	Estates	0	209999	N	

I weld y grwpiau cynnyrch y gallwch eu defnyddio, agorwch y ffenestr chwilio gwerth trwy glicio'r tri dot yn y rhes 'Procurement Product Group'. Bydd clicio ar 'search' yn dangos yr opsiynau gwerth ar gyfer y maes hwn (mae'r camau yr un fath ag yn y maes Ardal Dreth).

Mae'r gwerthoedd posibl yn cael eu dangos ar dair tudalen a gallwch lywio drwyddynt drwy ddefnyddio'r botymau saeth. Efallai fod gan rai o'r gwerthoedd statws 'C' (ar gau), nid yw'r gwerthoedd hyn yn cael eu defnyddio a bydd ceisio eu defnyddio yn rhoi neges wall i chi. Gallwch hidlo'r gwerthoedd hyn allan o'r rhestr os rhowch 'N' yn y maes 'Status' a chlicio ar 'Filter'.

Dewiswch y maes cywir ar gyfer eich cyflenwr. Os nad ydych yn siŵr ym mha grŵp cynnyrch y bydd eich cyflenwr yn ymddangos, e-bostiwch y swyddfa gaffael (<u>bylstaff@aber.ac.uk</u> a all eich cynghori ymhellach am hyn.

Enghreifftiau o ddyraniad grŵp cynnyrch:

- Byddai cyflenwr sy'n darparu llety i fyfyrwyr neu staff yn dod o dan y grŵp 'Teithio'. Mae hyn hefyd yn berthnasol i arhosiadau mewn gwestai pan fo myfyrwyr/darlithwyr yn ymweld ag Aberystwyth. Byddai unrhyw fysiau neu dacsis hefyd yn ffitio yn yr un grŵp.
- Byddai cyflenwr sy'n darparu cymorth a gwaith ymgynghorol ar gyfer prosiect ymchwil yn dod o dan 'Consultancy (Science, Research & Education).
- Byddai Cyflenwr bwyd ar gyfer y gwasanaethau croeso yn ymddangos o dan 'Catering'.

Gallwch hefyd chwilio am grwpiau drwy chwilio'n uniongyrchol yn y maes yn y golofn 'Relation value'.

Suppliers

Supplier	Contact information	Invoice	Payment	Relations	Additional Information	Supplier	Trans			
Supp	lier									
Lookup	5		•••							
			Rel	ation				Relation value	Description	
	Supplier group (SUPPGRP)								
	Tax Area (TAXAREA)									
	Procurement Product Grou	ip (PROD GR	RP PROC)			-	1	-1		
Add	Delete						TRAV	Travel		

Tab 6: Gwybodaeth ychwanegol

Mae diweddaru'r tab hwn yn **orfodol** a bydd yn cael ei ystyried fel **y pwysicaf** ar gyfer ail-ysgogi cyflenwr. Rhaid rhoi'r wybodaeth gywir yn yr holl feysydd er mwyn ail-ysgogi'r cyflenwr i'w gymeradwyo.

Fel y gwelwch ar y sgrinlun isod gan ddefnyddio enghraifft o Teiars Cambrian, nid oes unrhyw wybodaeth yn unrhyw un o'r meysydd.

Suppliers Contact information Invoice Supplier Payment Relations Additional Information Supplier Trans Supplier Lookup T10714 CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd Procurement Information You must complete all fields in this section. Please refer to Financial Regulations (Section 2.5) for guidance on conflict of interest and Procurement Procedures for general procure use this supplier until it has been approved by Procurement nt quidance. You will not be able One Off Spend Conflict of Interest Dept Requesting Supplier Category of Supplier Est Annual Spend Exc VAT Link to Fin Procedures Link to Fin Regulations Add Delete S16 Tax Status VAT Registration For individuals please complete a SES Form and attach as a document to the completed supplie request. If Y, enter the current financial year 1 You must enter a valid registration number if the supplier is VAT registered VAT Registered Y/N VAT Registration Number Current Year (Apr-March) Self Employed Y/N Add Delete Add Delete **Brief details** Include reason for needing new supplier and details of products/services to be p Supplier Requirement

Efallai y byddwch yn dod ar draws cyflenwr sydd â rhai / pob un o'r meysydd wedi'u llenwi â gwybodaeth. Bydd angen i chi ychwanegu rhesi newydd i'r meysydd trwy glicio ar y botwm 'Add' a rhoi gwybodaeth berthnasol ym mhob maes am y gwasanaethau/nwyddau y mae angen eu prynu.

Invoice control definition

Gwybodaeth am gaffael

Clear New

Export

Workflow map

Output filter

Save

Dechreuwch deipio enw eich adran i'r maes cyntaf yn y golofn 'Dept Requesting Supplier'. Gallwch hefyd glicio ar y tri dot a dod o hyd i'r opsiynau sydd ar gael trwy glicio ar y botwm 'Search' yn y ffenestr sy'n ymddangos ar ôl clicio ar y tri dot.

Dewiswch amcangyfrif o werth gwariant blynyddol o'r gwymplen. Defnyddiwch gwymplenni yn y meysydd canlynol i nodi a fydd hyn yn wariant untro ac a oes unrhyw wrthdaro buddiannau.

I gael arweiniad ynghylch y gweithdrefnau a'r rheoliadau ariannol, a allai fod o gymorth wrth lenwi'r meysydd hyn, cliciwch ar y dolenni ar ddiwedd y rhes.

rocurement Information							
You must complete all fields in the use this supplier until it has been	his section. Please refer to Fi approved by Procurement	nancial Regulations (Section 2.5) fo	r guidance on conflict	of interest and Procurer	nent Procedures for general	procurement guidance. You will	not be a
					1010 5 5 1	Line Frederic	
Dept Requesting Supplier	Category of Supplier	Est Annual Spend Exc VAT	One Off Spend	Conflict of Interest	Link to Fin Procedures	Link to Fin Regulations	

S16 Statws Treth

Yn y maes hwn, nodwch a yw'r cyflenwr yn hunangyflogedig ai peidio. Ychwanegwch gyfnod y flwyddyn dreth gyfredol (mae hyn o fis Ebrill i fis Mawrth, felly ar adeg ysgrifennu'r canllaw hwn (Mai 2024) byddai o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025).

S16 Tax Status			
For individuals please complete a SES For request. If Y, enter the current financial y	orm a year	and attach as a document to the completed suppl	ier
Self Employed Y/N		Current Year (Apr-March)	
□ • Y	•	2024/2025	
Add Delete			

Cofrestriad TAW

Nodwch a yw'r cyflenwr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac os ydyw, ychwanegwch y rhif cofrestru TAW. Mae'r rhif hwn yn cynnwys cod gwlad (sef GB ar gyfer y DU) a naw digid.

VAT Registration			
i You must enter a valid registration num	ber if	the supplier is VAT registered	
VAT Registered Y/N		VAT Registration Number	
- Y	•	GB123456789	
Add Delete			

Manylion byr

Ysgrifennwch y rheswm dros gael cyflenwr newydd a manylion y cynnyrch/gwasanaethau a ddarperir. Ceisiwch egluro hyn mewn brawddeg fer ond rhowch ddigon o wybodaeth i gefnogi'ch cais.

Brief details	
i Include reason for needing new supplier and details of products/services to be provided.	
Supplier Requirement * The supplier will provide translation services for the XYZ project.	

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y rheswm a'r manylion am yr hyn y mae'r cyflenwr yn ei wneud i'r brifysgol gan y bydd diffyg gwybodaeth yn golygu y caiff y dasg ei gwrthod a bydd yn rhaid i chi ddarparu'r manylion hyn wrth ailgyflwyno.

Enghreifftiau o fanylion byr ANGHYWIR:

- XYZ yw'r unig gwmni sydd â chaledwedd, meddalwedd, patentau ac opsiynau sy'n addas ar gyfer ein hymchwil.
 - Nid yw'n cynnwys digon o wybodaeth am y cynnyrch/gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu, mae'n cynnwys y rheswm ond beth yn union yr hoffai'r brifysgol ei brynu?
 - Dim ond dweud am yr hyn maen nhw'n ei gynnig gwna'r esboniad hwn, ond a yw'r brifysgol yn prynu'r holl eitemau hyn neu a ydych chi'n defnyddio'r cyflenwr ar gyfer eitemau penodol yn unig?
- Contractwr/partner ar gyfer prosiect XYZ.
 - Fel arfer, nid oes gwybodaeth gan y sawl sy'n cymeradwyo am holl brosiectau'r brifysgol a'r hyn sydd ei angen ar eu cyfer. Rhaid bod yn fwy penodol. Er ei fod mewn gwirionedd yn ateb y cwestiwn pam mae angen y cyflenwr ar ABW, nid yw'n nodi beth maen nhw'n ei wneud ar gyfer y brifysgol. Ai gwaith ymgynghorol? Gwasanaethau cyfieithu? Arlwyo?
 - Mae'n dda sôn, at ddibenion cyfeirio, ar gyfer pa brosiect y defnyddir y cyflenwr, ond beth mae'r cyflenwr yn ei ddarparu?
- Unrhyw ddisgrifiad un/dau air e.e.: asiantaeth, garej, gwesty, cwmni ymgynghori ac ati.
 - nid yw'r esboniad hwn yn unol â'r cyfarwyddiadau. Nid oes unrhyw reswm yn cael ei gynnig i ddweud pam y mae eu hangen arnom a beth y byddant yn ei ddarparu.
 - Efallai ei bod hi'n amlwg y bydd gwesty'n darparu llety, ond mae angen mwy o wybodaeth arnom ynglŷn â'r pryniant.
 - Er enghraifft: Ar gyfer pwy mae hyn? A yw'n cael ei ddefnyddio dro ar ôl tro? Pam na ellir archebu/prynu hyn drwy Gwmni Rheoli Teithio'r Brifysgol?
 - Yn yr un modd gyda'r enghreifftiau eraill beth fydd garej yn ei ddarparu i'r brifysgol? Pa fath o ymgynghori y mae'r cwmni'n ei wneud? ac ati.

Uwchlwytho dogfennau

I ychwanegu dogfen, cliciwch ar y botwm clip papur yng nghornel dde uchaf y sgrin (a amlygir mewn coch).

pliers			
plier Contact information Invoi	ice Payment Relations Additional Information	on Supplier Trans	
Supplier			
.ookup			
Г10714			
AMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd	Sum Fee anno 1		
T10714	CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd		
227 - 222 - 112			
Classification	Supplier identification	☆ Notes	
Classification	Supplier identification	* Notes	
Classification iupplier group * Trade Creditors	Supplier identification Company registration number	☆ Notes	
Classification hupplier group * Frade Creditors	Supplier identification Company registration number	☆ Notes	
Classification Jupplier group * Trade Creditors	Supplier identification Company registration number	∧ Notes	
Classification Jupplier group * Trade Creditors Sountry * Jnited Kingdom 18	Supplier identification Company registration number	∧ Notes	
Classification Jupplier group * Trade Creditors - Junited Kingdom 18 anguage *	Supplier identification Company registration number	* Notes	
Classification hupplier group * Trade Creditors Jountry * Junited Kingdom 88 anguage * inglish UK	Supplier identification Company registration number	Notes	

Pan fyddwch chi'n gwneud hyn, bydd ffenestr naidlen yn ymddangos.

Document archive (?)	All documents		Change view	Actions	Sort by Do	cument type priority	- E Search	a
All documents 30 Supplier Id (T10714) SES Questionnaire Supplier Documents Supplier Documents	Add a document	PDF						
	PF	PDF	pf			F		
	PDF	PDF	PDF	PDF	PDF	PDF	PDF	

Cliciwch ar yr eicon 'Add a document' a fydd yn dangos y neges ganlynol:

Document type*⑦	
	•
"ile name "	
	Upload
Document title*	
Document description	

Math o ddogfen

Yn y math o ddogfen gallwch ddewis o ddau opsiwn – Dogfennau Cyflenwr a holiadur SES.

Document type *?

•

Dewiswch pa fath o ddogfen y byddwch yn ei huwchlwytho.

Enw ffeil

Uwchlwythwch y ffeil o'ch cyfrifiadur gan ddefnyddio'r botwm 'upload'.

Teitl y Ddogfen

Rhowch enw i'r ddogfen gan ddilyn y fformat hwn: [Enw'r Cyflenwr] – [enw'r ddogfen].

Enghraifft o deitl dogfen:

Enw fy Nghyflenwr Newydd Cyf - Ffurflen Data Cyflenwr Newydd

Pan fyddwch yn hapus â'r ddogfen, cliciwch ar 'cadw', a bydd y ddogfen yn cael ei huwchlwytho i ABW.

Cadw

Pan fyddwch wedi newid yr holl feysydd yr oedd angen eu newid, gallwch glicio ar y botwm cadw ar waelod y dudalen. Dylai ffenestr naid ymddangos yn gadael i chi wybod bod y cyflenwr wedi'i gadw'n llwyddiannus.

Success	
Successfully saved. Changes in Supplier ID T10714 will not take effect they are approved.	t until
ОК	

Os ydych chi'n ceisio cadw manylion y cyflenwr ac heb lenwi rhai o'r meysydd gorfodol, yna byddwch yn cael neges wall ar waelod y sgrin yn esbonio beth sydd ar goll. Llenwch yr wybodaeth goll a'i gadw eto.

opliers			
pplier Contact information Invoice	Payment Relations Additional Inform	ation Supplier Trans	
Supplier			
Lookup			
T10714 CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd			
Payment details	Bank details		
Pay method *	Bank account*	Status*	
BACS 👻	12345678	Active 👻	
	Build Soc. Roll*	Expiry date	
	Account Holder*		
	IRAN		
ave Clear New Export	Workflow map Output filter	voice control definition *Please note that these details serve on	y as an example and are not actual bank details of the above mentioned compa

Wrth newid manylion cyflenwr caeedig sydd heb lenwi'r tab 'Gwybodaeth ychwanegol', byddwch yn derbyn ffenestr naid yn gofyn i chi lenwi'r wybodaeth hon. Ni fydd y neges hon yn ymddangos mewn achosion pan fydd y tab 'Gwybodaeth ychwanegol' yn cynnwys hen wybodaeth, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ei diweddaru oherwydd bydd peidio â diweddaru'r wybodaeth hon yn arwain at wrthod y dasg.



Beth fydd yn digwydd nesaf

Pan fyddwch wedi cyflwyno eich cais i ail-ysgogi cyflenwr, bydd y cais yn ymddangos yn nhasgau'r Gweinyddwr Caffael o fewn ychydig oriau. Yna bydd y Gweinyddwr Caffael yn adolygu'r cais a bydd hefyd yn gwirio cywirdeb yr wybodaeth a ddarperir.

Os bu newid yn y manylion banc, bydd y Gweinyddwr Caffael yn cysylltu â'r cyflenwr i gadarnhau'r manylion banc. Mae **cadarnhau'r manylion banc** yn rhan hanfodol o'r broses gymeradwyo ac ni ellir ei hepgor, felly mae'n dibynnu ar sicrhau bod y cyflenwr yn gallu ymateb i'r e-bost neu'r alwad ffôn gan y swyddfa gaffael.

Ymdrin â thasg a wrthodwyd

Os oes unrhyw gamgymeriadau yn y data a gyflwynwyd, gallai eich tasg gael ei gwrthod. Fel rheol nid yw hyn yn golygu na ellir ail-ysgogi'r cyflenwr, ond rhaid cywiro'r camgymeriadau ac yna gellir dychwelyd y dasg i'r tîm caffael er mwyn i'r broses gymeradwyo ailgychwyn.

Mae dwy senario yn bosibl yn y broses o ymdrin â thasg a wrthodwyd. Os gwrthodwyd y dasg oherwydd camsillafu neu gamgymeriad yn yr wybodaeth yr ydych wedi'i newid, gallwch ddiwygio'r dasg. Mae'r un peth yn berthnasol os gwnaethoch anghofio lanlwytho'r 'Ffurflen Ddata Cyflenwr Newydd'.

Pan fydd eich cais yn cael ei wrthod, bydd yn dod yn ôl i'ch ABW ar ffurf tasg, a bydd yn edrych yn wahanol i'r ffurflen pan oeddech chi'n gosod y cyflenwr.

I agor tasg, rhaid i chi glicio ar y tic yng nghornel dde uchaf eich sgrin.

Unit <mark>4</mark>	ERP		🆤 👻 🥱 👻 Prifysgol Aberystwyth University 👻 👤	Search (Alt+q)		
AB Suppliers	×			\wedge		
Homescreen menu						
Reports		Requisitions	Purchase orders	Favourites ③		
rour employment		100		No lavourites		

Bydd yn agor ffenestr fach yn dangos eich tasgau. Gallwch naill ai glicio ar y dasg yn uniongyrchol, neu os oes gennych fwy o dasgau ac nad ydych yn siŵr pa un yr hoffech ei golygu, gallwch glicio ar 'Go to Task management' i agor tab sy'n dangos mwy o wybodaeth am eich tasgau.

UNIT <mark>4</mark>	ERP				🆤 🗸 🦘 👻 Prifysgol Aberystwyth L	Iniversity ~ 1 ~ .	Search (Alt+q)	
-						Your tasks (2)	C Group by ≽	2
lomescreen menu								
	Reports		Requisitions		Purchase orders			
Your employment	Shared	*	Requisitions - standard		Purchase order			
Forms			Enquiries	*	Goods received	Rejected Amended Supplier - Initial	Checks SuppID: T10714 Supplier n	
			Rejected An	nended	Supplier - Initial Checks SuppID: T10714 Supplier r	name: CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd B	Bank accnt: 12345678 Conflict Of Interest Fx:	N
Personnel	Procurement invoices		Supplier information			Go to Task management		
Procurement	Enquiries	≽	SuppliersEnquiries	*	*Please note that these details serve only	as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned company*	

Pan fyddwch chi'n clicio ar y rheolwr tasgau, ac yna ar 'Rejected Amended Supplier – Initial check', fe welwch eich tasgau a wrthodwyd.¹

	Search for task	ks.	Q,			
dl tasks	Sort and gro	sup by				
	Client	Process name	Workflow step	Task data	Due on	
oday	AB	Supplier Mast	Rejected Ame	SuppID: T10714, Supplier name: CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd, Bank accnt: 12345678, Conflict Of Inte	erest Fx: N	
morrow						
morrow						
erdue			*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*
erdue			*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*
erdue p by			*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*
erdue p by Step Process			*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*
erdue by Step Process			*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*
erdue by Step Process w Supplier - Awaiting rk Details	1		*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*
norrow srdue by Step Process w Supplier - Awaiting ik Details acted Amended		_	*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*
erdue edue step Process w Supplier - Awaiting rk Details lected Amended pplier - Initial Checks	4		*Please	note that these details serve only as an example and are not actual bank det	ails of the above mentioned co	ompany*

Pan fyddwch yn agor y dasg a wrthodwyd (trwy glicio arni), ar yr ochr dde, mae tabl gyda'r pennawd 'Workflow log' sy'n cynnwys sylwadau a wnaed gan y sawl a oedd yn cymeradwyo eich tasg.

¹ Cofiwch y gallai'r hyn a welwch ar eich sgrin fod ychydig yn wahanol i'r sgrinlun oherwydd efallai fod gennych reolau caniatâd gwahanol yn ABW.

UNIT4 ERP					🗸 🗸 v Prifysgol /	Aberystwyth University	~ ± ~	. √2	Search (Alt+q)	٩
AB Task management ×										
Image: Search for tasks Q C Task description C Client: AB, Workfow step: Rejected Amended Supplier - Initial Checks, Process name: Supplier Masterfile, Suppli: 110714, Supplier name: CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd, Bank accnt: 1245678, Conflict Of Interest Fic N	Master file approval See workflow comments for reason why rejected. If supplier amendment is documents where required and select Accept Information			pplier amendment is no SupelD 110714	longer required select Re	onger required select Reject, to resubmit to make the necssary changes/attach				
*Please not that these details serve only as a	Supplier gro	up 1	bank details of the above	Status N	Earto 224 05 Earto 23705/2024 05 Earto 23705/2024 09 Earto 23705/2024 09 Earto 2405 Earto 2405 Earto 2405 Earto 2405 Earto 2405 Earto 2405 Earto 2405	oto realing of approver (star sost code and fill out the est star star (star nt)	f w - Distributed	P		
9	Details									
ende	Мар	Status	Field	Field	d associated with	Current value	New value			
ted Am	۸		Relation value	Procurement P	roduct Group VEHICLE	Non Specified	Vehicle	•		
Rejec	•		Self Employed V/N	S16 Tay Statue			N			
	Accept	Reject	Advanced mode Cl	lear Log book	Export					

Dilynwch y sylwadau gan y cymeradwywr a newidiwch y data sy'n anghywir. I newid y gwerth, cliciwch ar y rhes sy'n cynnwys y gwerth a bydd yn dangos maes i chi a fydd yn galluogi i chi ei ddiwygio.

AB Task management ×								
Search for tasks Q C	Сору							
Task description								
Client: AB, Workflow step: Rejected Amended	Details							
Supplier - Initial Checks, Process name: Supplier Masterfile, SupplD: T10714, Supplier name:	Мар	Status	Field	Field associated with	Current value	New value		
CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd, Bank accnt:			Relation value	Procurement Product Group VEHICLE	Non Specified	Vehicle		
12343676, Connict Of interest FX: N	*		Self Employed Y/N	S16 Tax Status		N		
			Category of Supplier	Procurement Information		Non Specified		1
	A		Est Annual Spend Exc VAT	Procurement Information		Existing Supp Ex. <£5K	<	$\langle \Box$
			Conflict of Interest	Procurement Information		N >&50K	>£50K	
			Supplier Requirement	Brief details		Te £10k-£25K	£10k-£25K	
			Bank accnt		19596060	1: £5K-£10K	£25K-£50K £5K-£10K	
			Sort Code		308085	12-34-56		
			Foreign acc.			Cambrian Tyres		
			Status		Closed	Active		
	Accent	Reject	*Please note the	hat these details serve only as an exam	nple and are not actu	al bank details of the a	bove mentioned co	mpany*

NODER: Yn y rhyngwyneb golygu, mae system ABW yn dangos maes o'r enw 'Foreign acc' a enwyd yn flaenorol yn 'Account holder name' (wrth osod cyflenwr newydd). I newid enw deiliad y cyfrif banc, newidiwch y gwerth yn y maes 'Foreign acc'.

Ar ôl gorffen gyda'r holl newidiadau, cliciwch ar 'Accept' a bydd y dasg yn cael ei hanfon yn ôl i'r tîm caffael. Gwnewch yn siŵr cyn derbyn eich bod yn newid popeth a grybwyllwyd yn y cofnod llif gwaith.

<u>Yr ail senario</u> a all ddigwydd pan fydd eich tasg yn cael ei gwrthod yw eich bod wedi anghofio llenwi gwybodaeth sy'n hanfodol er mwyn derbyn y dasg. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i chi wrthod y dasg er mwyn ei thynnu o'ch tasgau ac anfon cais newydd (newid manylion y cyflenwr eto yn y rhyngwyneb 'Suppliers'). Bydd hyn yn cael ei grybwyll yn y sylw gan y cymeradwywr.

=	AB Task management ×			
	« Search for tasks Q C			□ 🖉 ?
AII LUSKS	Task description Client: AB, Workflow step: Rejected Amended Supplier - Initial Checks, Process name: Supplier	Master file approval See workflow comments for reason why rejected. If supplier amendment is no lo documents where required and select Accept	onger required select Reject, to resubmit to make the necssary changes/attach	- I
APC	Masterfile, SupplD: T10714, Supplier name: CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd, Bank accnt: 12345678, Conflict Of Interest Fx: N	Information	☆ Workflow log (row 0)	1
201		Supplier name CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd SuppliD T10714 Supplier group 1 Status N	23/05/2024 10:34 Name of approver (Staff nr) - Rejected - "Please reject this task and update the additional information tab in a new request" 23/05/2024 10:33 Your name (Staff nr) - Distributed	$\langle \neg$
Werdue Iomonon	*Please note that these details serve only as an e	xample and are not actual bank details of the above mentioned company* Details	(Enter a comment)	

I gael gwared y dasg o'ch tasgau, gwrthodwch y dasg trwy glicio ar y botwm gwrthod, 'Reject' gan roi rheswm.

	AB Task management ×		_
Image: Search for tasks Image: Search		Master file approval See workflow comments for reason why rejected. If supplier amendment is no longer required select Reject, to resubmit to make the necssary changes/attach documents where required and select Accept	2
Today	Masterfile, SupplD: T10714, Suppler name: CAMBRIAN TYRES(Aberystwyth) Ltd, Bank accnt: 12345678, Conflict Of Interest Fx: N	Information	
Tomorrow		Enter your comment Further amendments needed in a new request Reject	
Overdue		Details Field associated with Current value New value	
5 ,i		Reject Sell Fmnlowerl Y/N S16 Tax Status	

Efallai y cewch e-bost gan y system yn dweud bod eich cais wedi'i gymeradwyo. Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi beth oedd statws eich cais gan y gellir derbyn yr e-byst hyn hyd yn oed pan fydd yn golygu bod y cais am wrthod wedi'i gymeradwyo. Os byddwch yn gwrthod y dasg, bydd yn rhaid i chi greu cais newydd i wneud newidiadau i gyflenwr er mwyn i'r newidiadau ymddangos ar y system.

Sut i wneud newidiadau i gyflenwr

Mae'r broses ar gyfer gwneud newidiadau i gyflenwr bron yr un fath ag ail-ysgogi cyflenwr. Yr unig wahaniaethau yw nad oes angen i chi lanlwytho 'Ffurflen Data Cyflenwr Newydd' a dim ond yr wybodaeth sydd angen ei newid rydych chi'n ei newid.

Nid oes unrhyw feysydd gorfodol oni bai eich bod yn newid cyflenwr sydd â gwybodaeth coll mewn maes sydd wedi'i wneud yn orfodol ers y newid diwethaf a wnaed iddynt. Os nad yw'r system yn gadael i chi arbed y newidiadau, fe welwch rybudd ar waelod y sgrin gydag esboniad pam na ellir prosesu'r arbediad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r meysydd y sonnir amdanynt yn y neges rybudd hon ac arbed y cyflenwr.

Defnyddiwch y <u>Canllawiau ar gyfer ail-ysgogi cyflenwr</u> i lywio trwy'r broses o wneud newidiadau. Cofiwch, wrth wneud newidiadau i gyflenwr, nid oes angen i chi newid yr holl feysydd sy'n ofynnol wrth ail-ysgogi cyflenwr.

Uwchlwytho tystiolaeth

Wrth wneud newidiadau i gyflenwyr, mae angen i chi uwchlwytho tystiolaeth i gefnogi'r rheswm dros y newid. Gall hwn fod yn e-bost gan y cyflenwr, sy'n eich hysbysu am y newid manylion, neu debyg.

Mae angen y dystiolaeth hon arnom i atal gweithgarwch twyllodrus. Gall hyd yn oed newid cyfeiriad e-bost fod yn risg bosibl i'r Brifysgol, felly, i sicrhau bod y newidiadau a wneir yn ddilys, bydd angen i chi lwytho'r dystiolaeth i'r dogfennau cyflenwyr.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais i wneud newidiadau i gyflenwr, bydd y cais yn ymddangos yn nhasgau'r Gweinyddwr Caffael o fewn ychydig oriau. Yna bydd y Gweinyddwr Caffael yn adolygu'r cais a bydd hefyd yn gwirio cywirdeb yr wybodaeth a ddarperir.

Os bu newid yn y manylion banc, bydd y Gweinyddwr Caffael yn cysylltu â'r cyflenwr i gadarnhau'r manylion banc. Mae **cadarnhau'r manylion banc** yn rhan hanfodol o'r broses gymeradwyo ac ni ellir ei hepgor, felly mae'n dibynnu ar sicrhau bod y cyflenwr yn gallu ymateb i'r e-bost neu'r alwad ffôn gan y swyddfa gaffael.

Ymdrin â thasg a wrthodwyd

Os oes unrhyw gamgymeriadau yn y data a gyflwynwyd, gallai eich tasg gael ei gwrthod. Fel rheol nid yw hyn yn golygu na ellir ail-ysgogi'r cyflenwr, ond rhaid cywiro'r camgymeriadau ac yna gellir dychwelyd y dasg i'r tîm caffael er mwyn ailgychwyn y broses gymeradwyo.

Mae'r broses o ymdrin â gwrthod newidiadau i gyflenwyr yr un fath â thrin gwrthod ail-ysgogi cyflenwr, dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer <u>Ymdrin â gwrthod ail-ysgogi cyflenwr</u> uchod.